

Llawlyfr Gwybodaeth
i Rieni
Parents Handbook

Ysgol Nebo



2017/2018

Annwyl Rieni,

Hoffwn gyflwyno'r llawlyfr yma "Gwybodaeth i Rieni" i'ch sylw. Fe garem estyn croeso cynnes iawn i ddisgyblion newydd i Ysgol Nebo. Mae'n ysgol hynod gartrefol gyda amgylchedd groesawgar, ysgogol a diogel, er mwyn annog dysgu effeithiol. Darperir Cwricwlwm amrywiol, cytbwys a chyfoethog gyda digon o brofiadau dysgu diddorol, amrywiol ac adnoddau cyfredol a chyfoethog i ysgogi chwilfrydedd naturiol ym mhob plentyn, waeth beth fo' l allu, hil neu ryw.

Mae'r ysgol a'r cartref yn bartneriaeth. Hoffwn i chi fel rhieni a gwarchodwyr fod yn falch o'r ysgol. Credaf y dylai'r ysgol roi'r cyfle i chi ddeall a bod yn rhan o'r broses addysgu fel y gallwch helpu eich plant y tu allan i'r ysgol.

Nid oes modd cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol yma ac fe nodir y gall rhai manylion newid rhwng amser cyhoeddi'r llawlyfr a dechrau'r flwyddyn ysgol. Fe'ch gwahoddir i drafod ei gynnwys (neu unrhyw beth nad ydyw wedi ei gynnwys) gyda mi trwy wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.

Yn gywir.

Bethan Hughes

Gwybodaeth Am Yr Ysgol.

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Nebo.
Rhif ffon:	01286 881273
E-bost:	Bethanhughes3@gwynedd.llyw.cymru
Dilynwch ni ar:	Facebook
Prifathrawes:	Miss Bethan Hughes B.Add.
Athrawon	Mrs Rhian Wyn Roberts Jones Mrs Rhian Wyn Roberts
Cymorthyddion Ychwanegol.	Alwen Johnson - Cyfnod Sylfaen/ Anghenion Dysgu
Clwb Brecwast	Rhiannon Thomas Zoe Hood
Cadeirydd Llywodraethwyr:	O.P.Huws Bryn Gwyn Nasareth 01286881176

Math o ysgol

Ysgol fechan wledig yw Ysgol Nebo, yn ysgol hapus a chyfeillgar gyda'r plant yn chwarae rôl bwysig yn y trefniadau dyddiol. Caiff pob plentyn gyfle i ddatblygu yn ôl ei allu, a'r cymorth gorau all yr athrawon roi.

Rhannir yr ysgol yn ddau ddosbarth, blynyddoedd meithrin, derbyn, un a dau gyda Miss Hughes ac Anti Alwen(bore), a blynyddoedd tri, pedwar, pump a chwech gyda Mrs Roberts Jones, Mrs Roberts ac Anti alwen yn y prynhawn

Cred yr ysgol fod rhan y rhieni yn natblygiad y plentyn yn hanfodol, ac o'r herwydd, mabwysiadwyd cynllun drws agored yma, ble mae'r rhieni yn gallu dod i'r ysgol ar unrhyw adeg, gan wneud trefniant o flaen llaw, i ddod i drafod eu plant.

Ysgol gartrefol oedd disgrifiad un rhiant o ysgol Nebo, a dyma yn union yw nôd ac amcan y staff a'r llywodraethwyr, sef lle mae'r plant yn teimlo'n saff a sicr ac felly yn ffynnu.

PATRWYM DIWRNOD YN YR YSGOL.

Clwb Brecwast:	8:10.-8:40
Sesiwn y bore:	9:00-12:00
Sesiwn y prynhawn:	1.00-3.15
Amser chwarae:	10.30-10.50 12.30- 1.00
Cyfnod Sylfaen	2.10- 2.20
Oriau'r blwyddyn meithrin:	9.00 - 11.00

Bydd yr ysgol yn derbyn chyfrifoldeb am y plant o 08.50 y.b. hyd at 15.15 y.h.

GWYLIAU:

30 Hydref -3 Tachwedd	(Hanner-Tymor)
22 Rhagfyr 2017 - 8 Ionawr 2018	(Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2017	(Hanner-Tymor)
23 Mawrth - 9 Ebrill 2018	(Gwyliau'r Pasg)
7 Mai 2018	(Calan Mai)
28 Mai hyd at 1 Mehefin 2018	(Hanner-Tymor)
20 Gorffennaf - 2 Medi 2018	(Gwyliau'r Hâf)

Amcanion a Dulliau Gweithredu

1. I greu amgylchfyd ag awyrgylch lle gall plant dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolion hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac yn aelodau cyfrifol o gymdeithas.



2. I ddarparu cyfle llawn i blant ddatblygu eu sgiliau, doniau, talentau a'u diddordebau, i ddod i adnabod eu hunain: eu gwendidau a'u cryfderau.
"datblygu doniau, talentau a'u diddordebau" - e.e. cystadlu yn chwaraeon y Dalgylch a'r Urdd, cael gwersi offerynnol, cyfrannu at gystadleuthau llwyfan a gwaith

cartref yr Urdd.

"deall rhywbeth am eu gwendidau a'u cryfderau" - bod y plant yn cael cyfle i werthuso eu gwaith yn rheolaidd, rhannu cyfrifoldeb o wybod cryfderau eraill.

3. I sicrhau fod plant yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu ar eu cyfer gwricwlwm sy'n berthnasol, yn wahaniaethol, yn eang a chytbwys gan ddehongli gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn nghyd destun athrawiaeth a pholisïau yr Awdurdod Addysg. Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf bosibl.

"cyfle cyfartal" - bechgyn a merched yn cyfrannu at yr un agweddau megis coginio, gwnïo, gemau cymysg a.y.y.b.

"gwricwlwm sy'n berthnasol ..." - cyflwyno Cwricwlwm Cymreig, gwneud

defnydd o amgylchedd naturiol yr ysgol i ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

"... yn wahaniaethol ..." - cyflwyno tasgau i'r plant sy'n galluogi iddynt weithio o fewn eu gallu ond ar yr un llaw yn cynnig her addysgol iddynt.

"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf bosibl" -

athrawon yn ymwybodol o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, a pholisïau a chanllawiau yr Awdurdod Addysg. Hefyd yn mynychu cyrsiau ac yn dilyn cynllun Hyfforddiant Mewn Swydd yr Ysgol.



4. I feithrin yn y plant falchder at eu bro a'u gwlad a datblygu ynddynt barch at y byd y maent yn byw ynddo.



"... balchder at eu bro a'u gwlad" - creu ymwybyddiaeth drwy gofio traddodiadau megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gwyl Dewi, eisteddfodau a.y.y.b. Pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a hanes Cymru
"... barch at y byd ..." - gwneud defnydd o amgylchfyd naturiol gyfoethog yr ysgol h.y. mynd am dro ar hyd y llwybrau, adnabod y gwahanol gynefinoedd megis y gors, y llyn, mynyddoedd.

5. I alluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gallant gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol a diwydiannol y gymdeithas ddwyieithog.



"... rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ..." - dilyn Polisi Iaith y Sir, rhoi cyfle iddynt drafod a gweithio yn eu hail-iaith, manteisio ar gyfleoedd ymarferol

megis cael ymwelydd Saesneg o dro i dro yn ôl galw y thema neu'r angen am arbenigedd fel bod y plant yn cael cwricwlwm eang a chytbwys.

6. I greu awyrgylch hapus sy'n seiliedig ar gydberthynas at barch a gofal rhwng plant â'i gilydd, rhwng athrawon â phlant a rhwng plant â'i gilydd er mwyn caniatáu i'r plant ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu mewn hunan hyder.



"Creu awyrgylch hapus" - cydosod rheolau pendant yn yr ysgol a phawb yn ymwybodol ohonynt a bod y plant yn gwerthfawrogi mai er eu lles y mae'r rheolau yn bodoli.

Cyflwyno drwy gyfrwng gwasanaethau egwyddorion sylfaenol bywyd.

7. I greu yn yr ysgol amgylchedd fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydfferth.

"... gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydfferth" - creu arddangosfeydd chwaethus drwy gyfrwng defnyddiau amrywiol, planhigion, arteffactau a.y.y.b. Tynnu sylw'r plant at arlunwyr, cyfansoddwyr a cherflunwyr mawr y byd.

8. I geisio gwella adeiladau'r ysgol a sicrhau eu bod yn ateb gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch. Hybu glanweithdra a thaclusrwydd tu mewn a thu allan i'r ysgol a chreu ynddi amgylchedd dysgu ddiddorol ac ysgogol.

Ceisio gwella adeiladau'r ysgol ..." - edrych yn aml ar yr adeiladwaith gyda un archwiliad manwl blynyddol a'i gwella os yw ffiniau ariannol yr ysgol yn caniatáu, neu ddod ag unrhyw fater i sylw'r awdurdod.

Gwneud y plant yn ymwybodol o ddiogelwch eraill a hylendid personol h.y.rheolau megis golchi dwylo, dim cerdded o gwmpas y gegin, taflu sbwriel i'r biniau a.y.y.b.

9. I sicrhau cydlynedd a chydbwysedd mewn trefniadaeth ysgol. Gwerthfawrogi a manteisio ar wahanol arbenigedd o fewn yr ysgol. Creu trefniadaeth hyblyg i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio yn llawn ar arbenigrwydd aelodau staff.

"Sicrhau cydlynedd a chydbwysedd ..." gweithio ar thema ysgol gyfan, athrawon yn rhannu cyfrifoldebau a bod y rhain i'w dilyn yn wythnosol ac yn cael eu gosod allan yn nhaflen yr ysgol. Fod y plant a'r athrawon yn ymwybodol nad oes ffiniau

*pendant i'r un dosbarth h.y. drysau ar agor
rhwng y ddau ddosbarth.*

Rheolau'r Ysgol

1. Derbynnir plant yn llawn amser i'r ysgol ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Derbynnir plant yn rhan amser i'r ysgol ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed.
2. Disgwylir i bob plentyn fod yn yr ysgol erbyn 9 o'r gloch yn y bore. Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am ddiogelwch y plant cyn deg munud i naw.
3. Os yw plentyn am fod yn absennol dylid gadael i'r ysgol wybod cyn hanner awr wedi naw drwy'r ffyrdd a nodir isod:
 - * galwad ffon, tecst neu e-bost
 - *nodyn gan riant
 - * neges trwy frawd neu chwaer
4. Bydd pob plentyn yn gadael yr ysgol am chwarter wedi tri. Dylid gadael i'r ysgol wybod os oes newid yn nhrefniadau cludo'ch plentyn o'r ysgol, neu os yw rhiant yn methu dod i nôl y plentyn ar amser. Dylid sylwi nad yw'r ysgol yn gyfrifol am ddiogelwch y plant ar ôl hanner awr wedi tri.
5. Os yw plentyn gyda apwyntiad meddygol neu ddeintyddol dylid gadael i'r ysgol wybod y diwrnod cynt.
6. Os yw plentyn yn colli ysgol oherwydd gwyliau teuluol dylid cael llythyr oddi wrth y rhieni neu lenwi ffurflen caniatad gwyliau gan y pennaeth.
7. Nid yw'r Awdurdod Addysg a'r Awdurdod Iechyd yn cymeradwyo rhoi moddion i ddisgyblion yn yr ysgol oni bai fod yr amgylchiadau yn rhai eithriadol iawn. Y pryd hynny dylai'r rhieni lenwi ffurflen arbennig wedi' arwyddo. h
8. Cesglir arian cinio gan y plant ar ddydd Llun a rhoddir unrhyw newid i'r plant ar ddiwedd yr wythnos.
9. Ni ddylai unrhyw un o'r plant fynd allan o ffiniau'r ysgol yn ystod y dydd heb ganiatâd y Brifathrawes
10. Nôd yr ysgol yw creu awyrgylch hapus, cartrefol a theg. Caiff y plant rôl weithredol yn nhrefniant a rheolaeth dydd i ddydd yr ysgol, ac felly dônt i ddeall y rheolau a'r canllawiau. Maent yn dod i ddeall fod cosb a

chymeradwyaeth i'w gael.

Trefn o Gysylltu

- Ar ddechrau pob blwyddyn ysgol, byddwn yn anfon calendr yr ysgol am y flwyddyn, yn nodi'r gwyliau ysgol. Bydd dyddiadau pwysig yn cael eu hanfon yn rheoliadd.
- Byddwn yn anfon cylchlythyrau yn aml i rieni drwy law eu plant, e.e. caniatâd i fynd ar daith, rheswm am absenoldeb, gwahoddiad i weithgareddau a newyddion am y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
- Anfonir llythyr personol neu alwad ffôn os ydym am gael gair preifat â chi.
- Mae yna nifer o achlysuron y byddwn yn eich gwahodd i ddod draw ac mae yna nifer o weithgareddau cymdeithasol yr hoffem ichi fanteisio arnynt i ddod i adnabod yr ysgol a'r athrawon. Mae gwaith y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn bwysig iawn - beth am ddod draw i'n gweithgareddau?

Polisi derbyn yr ysgol

Mae Ysgol Nebo yn unol a pholisi'r Sir, yn derbyn disgyblion dosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Bydd plant yn mynychu'r ysgol yn llawn amser yn dilyn ei ben/phen-blwydd yn bedair oed.

Rhaid gwneud cais am fynediad i'r ysgol trwy gysylltu â Awdurdod Addysg Gwynedd. Er mwyn gwneud cais am le yn yr ysgol rhaid felly cyflwyno ceisiadau i Cyngor Gwynedd neu drwy'r ysgol cyn y 1af o Fawrth. Bydd y ffurflenni pwrpasol ar gael yn yr ysgol neu gan y Swyddfa Addysg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, sef www.gwynedd.gov.uk.

Trosglwyddo i'r Uwchradd

Trosglwyddir y plant 11 oed i Ysgol Dyffryn Nantlle. Ceir cysylltiadau cryf gyda'r Ysgol Uwchradd a caiff y plant gyfle i ymweld â'r ysgolion cyn eu trosglwyddo.

Absenoldebau

- Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd wedi bod yn bwysig erioed. Heb hyn bydd ymdrechion yr athrawon a'r ysgol yn ofer.
- Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar rieni i anfon eu plant i'r ysgol yn rheoliadd. Mae rhieni sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn yn wynebu cael eu herlyn.
- Mae'n gyfrifoldeb hefyd ar rieni i sicrhau fod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd, yn daclus, ac mewn cyflwr i'w dysgu.
- Cyfrifoldeb y rheini yw hysbysu'r ysgol am absenoldeb eu plentyn cyn gynted â phosib', ac i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach pe bai ei angen.
- Bydd Swyddog Lles y Sir yn hysbysu'r Awdurdod Addysg pan fydd presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder ac yn gwneud ymholiadau pellach.

- Yr ysgol yn unig, yng ngyd-destun y gyfraith, a all gymeradwyo absenoldebau. Gosodir absenoldebau mewn dau gategori - AWDURDODEDIG ac ANAWDURDODEDIG. Ni ellir caniatáu absenoldeb heb i chwi gysylltu â'r ysgol.
- Mae'r canlynol yn cael eu hystyried fel ABSENOLDEBAU AWDURDODEDIG - gwaeledd, apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol, a mynychu gwyl grefyddol lle mae rhieni'r plant yn aelodau.
- Mae'r canlynol yn enhreiffiau o ABSENOLDEB ANAWDURDODEIG - siopa yn ystod oriau ysgol, cyfrifoldebau cartref, aros adref i warchod, gwyliau estynedig yn ystod tymor ysgol.
- Dylai'r rhieni sy'n trefnu gwyliau ar wahan i wyliau'r ysgol ystyried calendr yr ysgol, ac oblygiadau hyn i'r plentyn. Ceir ffurflen ganiatad gan y pennaeth. Ni chaniateir mwy na 10 diwrnod o wyliau ymhob blwyddyn ysgol.
- Mae'r cofrestr yn cael ei chau am 9.15 y bore ac am 1.15 y prawn.
- Os yw disgybl yn dymuno cael ei esgusodi o wersi addysg gorfforol/gemau/nofio am resymau meddygol, rhaid iddi/o gael nodyn gan ei riant (am gyfnod byr) neu dystysgrif feddygol (am gyfnod estynedig neu barhaol).
- Os na fyddech wedi hysbysu'r ysgol am unrhyw absenoldeb cyn 9.30 yna byddwn yn cysylltu â chwi.
- Mae'r ysgol yn dilyn Canllawiau Cenedlaethol ar reoli heintiau.

Cwricwlwm

Yn unol â gofynion Deddf Addysg Cymru 2014, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehongli gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisiau presennol yr Awdurdod.

Amcanion cyffredinol.

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
 2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n cyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth.
 3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
 4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
 5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
 6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
 7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau, a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig, sy'n hawlio ymateb y disgybl.
- Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedg ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn

sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn y cyfarfod yn llawn a'r amcanion sydd yn y ddogfen.

Fe lunnir Polisiau a Chynlluniau Gwaith ar gyfer yr amrywiol bynciau gan yr ysgol mewn partneriaeth a'r Llywodraethwyr, ac mae modd gwneud trefniadau gyda'r Pennaeth i weld y dogfennau hynny yn yr ysgol.

Ceisir sicrhau bod yr addysg a gynigir yn eang a chytbwys. Credir y bydd yr addysg yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob plentyn sydd yn yr ysgol. Rydym hefyd am wneud yn siwr bod y cwricwlwm yn addas ar gyfer pob plentyn, yn eang ac yn gytbwys.

Y Cyfnod Sylfaen

Yn y blynyddoedd cynnar rydym yn cynllunio profiadau fydd yn ymestyn y plant. Mae diddordeb, syniadau a phrofiadau'r plant yn ffurfio sylfeini cwricwlwm y blynyddoedd cynnar. Rhoddwn broffil uchel i ddysgu trwy chwarae. Darperir y plant gyda gweithgareddau sy'n ysgogi eu dysgu. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu eu sgiliau ar draws y saith maes dysgu, sef:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol;
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Datblygiad Mathemategol;
- Datblygu'r Gymraeg;
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd;
- Datblygiad Corfforol;
- Datblygiad Creadigol

Cyfnod Allweddol 2

Dilynir Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 gyda disgyblion 7-11 oed.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) bydd sgiliau hanfodol megis cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh yn parhau i fod yn ganolbwynt i'n cwricwlwm. Ond, wrth i'w dealltwriaeth o'r disgyblaethau gwahanol wella, caiff mwy o amser ei roi i wyddoniaeth a'r pynciau sylfaenol eraill. Bydd y cwricwlwm yn parhau i gael ei gynnal o fewn thema integredig lle y bo hynny'n ystyrlon ac yn berthnasol. Caiff plant eu hannog i ddatblygu hunan-hyder, annibyniaeth wrth ddysgu a sgiliau uwch mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

- Pynciau Craidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth
- Pynciau Sylfaen - Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerdd, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg ac Addysg Gorfforol.

Yn ail gyfnod allweddol dilynir gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd y ogystal a'r Fframwaith sgiliau a'r Fframwaith ar gyfer Addysg Personol a Chymdeithasol ac Addysg Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang.

Addysg Gorfforol

Nôd

Amcenir tuag at:

1. Ddatblygu sgiliau corfforol/datblygu ffitrwydd
2. Feithrin hyder wrth ymateb i weithgarwch corfforol creadigol/cystadleuol/ffitrwydd a lles/awyr agored a datrys problemau
3. Feithrin ymdeimlad o fwyhad
4. Feithrin yr arfer o fod yn aelod o dimau bach



5. Feithrin cyfle cyfartal - gofalu bod yr egwyddor yn bodoli ymhob agwedd ar Addysg Gorfforol.

Amcanion

1. Datblygu sgiliau symudol.

2. Cynnal a chynyddu symudiadau a hyblygrwydd corfforol.

3. Datblygu stamina a chryfder - yn enwedig cyhyrau'r galon a'r esgyrn.

4. Datblygu'r gallu i gyfleu syniadau trwy osgo'r corff.

5. Gwerthfawrogi'r syniad 'chwarae'n deg' wrth gystadlu a meithrin agwedd iach tuag at ennill a cholli.

6. Datblygu'r gallu i werthfawrogi nodweddion esthetig symudiadau.

7. Datblygu awydd a gwerth dyfalbarhad i geisio llwyddiant.

8. Datblygu hunan hyder wrth ddeall cryfderau/gwendidau personol a phlant eraill.

9. Datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymarfer y corff er mwyn byw bywyd iach.

Yn ogystal â gwersi addysg gorfforol ymdrechir hefyd i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau chwaraeon, megis gemau pêl-droed, sialensau sgipio, clwb Dal i Fynd ar y trac rhedeg, hoci, pêl rwyd, gweithgareddau awyr agored/cyfeiriannu, a chlwb Campau'r Ddraig.

Drwy amrywiol brofiadau corfforol, gobeithir gosod sylfaen i fywyd iach a gweithgar a dysgu pob plentyn sut i gymryd rhan a mwynhau gweithgareddau corfforol.

Nofio: Cynhelir gwersi nofio i blant Blwyddyn 1 i Blwyddyn 6 yn ystod y flwyddyn yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn.

Mae'r gwersi hyn yn rhan o weithgareddau'r ysgol a disgwylir i bob plentyn gymryd rhan. Gofynnir i'r rhieni'n garedig i hysbysu'r ysgol i egluro pam na all plentyn fynychu'r wers.

Technoleg Gwybodaeth

Mae sgiliau TGaCh yn cael eu datblygu yn ymarferol ac yn cyfrannu i waith ar draws y cwricwlwm. Ymdrechwn i godi ymwybyddiaeth plant o botensial y cyfrifiadur ac i ymdrin ag o yn hyderus a phwrpasol gan gyrraedd lefel uchel o wybodaeth, sgil a dealltwriaeth. Mae Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol ymhob dosbarth ynghyd â chyfrifiaduron. Mae 4 gliniadur, 14 I Pad a 10 Chromebook yn ogystal yn yr ysgol.

Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd

Cyflwynir Addysg Grefyddol yn unol a Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod Addysg Lleol.

Ceisio Addysg Grefyddol yn yr ysgol wneud plant yn ymwybodol o'r cefndir crefyddol i safonau derbyniol ymddygiad a moesoldeb yn y wlad hon, yn derbyn gwahanol grefyddau amgylchfyd aml-dddiwylliannol yn agwedd bwysig o'r dysgu, ac y gall aelodau y gwahanol enwadau a'r credyddau o fewn yr ysgol wneud cyfraniad cadarnhaol tuag ato.

Cynhelir gwasanaeth dyddiol yn unol a gofynion Deddf Addysg 2002. Fel arfer, mae cynulliau yn dilyn yn sylfaenol batrwm Cristnogol, ond maent hefyd yn achlysur i ddosbarth neu'r ysgol gyfan fod yn ymwybodol ohonynt eu hunain fel cymuned. Ni cheir unrhyw ymgais i drwytho disgyblion a chredoau penodol, er bod cyfleoedd i arsylwi ymarfer Cristnogaeth - ac yn achlysurol, gredoau eraill. Mae'r achlysuron hyn yn bwysig os ydyw disgyblion am deimlo eu bod yn rhan gyflawn o gymuned yr ysgol a gobeithir y gallant oll fod yn bresennol yn ein gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y caniateir o dan y Ddeddf Addysg, gall y rhieni hynny sy'n gwrthwynebu i'w plant gymryd rhan yn y

gwasanaethau neu sy'n derbyn Addysg Grefyddol drefnu gyda'r Pennaeth iddynt gael eu hesgusodi rhag cymryd rhan ynddynt.

Addysg Bywyd a Pherthnasedd

Yn unol a gofynion Deddf Addysg 2014, disgwylir i Gyrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar.

Mae Ysgol Nebo yn dilyn Canllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasedd mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru 019/2010.

Penderfynnodd y Corff Llywodraethol y dylai addysg Bywyd a Pherthnasedd fod yn rhan o'r cwricwlwm a dylech ymgynghori a'r brifathrawes ynghylch eu datganiad ar y mater.

Ar ddiwedd cyfres o wersi yn y Cyfnod Sylfaen bydd y disgyblion yn deall:-

Y gwahaniaeth rhwng cyffyrddiad priodol a chyffyrddiad amhriodol. Byddent yn gwybod enwau cywir rannau o'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng benyw a gwryw.

Ar ddiwedd cyfres o wersi bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn deall:-

Y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod y glasoed, gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth. Ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain a theimladau ac emosiynau pobl eraill. Beth ddylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddent yn teimlo'n ddiogel.

Sgiliau ar Draws y Cwricwlwm

Mae Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn statudol o Medi 2013 i gymhwyso sgil rhifedd a llythrennedd. Mae 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl a TGCh i ddysgwyr 3-19 oed. Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Dysgu ar Draws y Cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Ceir cynlluniau pontio rhwng yr ysgol Uwchradd â ni.

Y Cwricwlwm Cymreig 7-14 oed

Dylai dysgwyr 7-14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Addysg Personol a Chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Trefn Gweithio

Gwneir pob ymdrech i sicrhau addysg er mwyn datblygu agweddau moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y paratodau addysgol yn wahaniaethol, eang a chytbwys. Bydd y gwaith yn cael ei baratoi ar gyfer yr amrywiol sefyllfaoedd, gan ddefnyddio trefniadaeth dosbarth hyblyg. Bydd y gwaith yn cael ei baratoi ar sail oedran, ac weithiau ceir plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un flwyddyn ysgol yn cyd-weithio ar yr un dasg. Bydd y profiadau dysgu yn cael eu cofnodi'n fanwl ac yn strwythuredig gan sicrhau fod profiadau eang a chytbwys ar draws y cwricwlwm. Dilynir y dulliau thematig er mwyn rhoi profiadau traws cwricwlaidd, gyda'r bwriad o gynnig addysg plentyn canolog.

Asesu Statudol

Yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol rydym wedi cynllunio dull o asesu ac adrodd i rieni. Yr ydym yn asesu'r plant yn barhaol yn holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd yr asesiadau yn cael eu cofnodi'n fanwl ac ar gael i athrawon yr ysgol. Darperir adroddiad cynhwysfawr i rieni ar holl raglen waith y disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Yn ôl rhaglen y Cwricwlwm Cenedlaethol fe fydd asesiadau athro diwedd cyfnod Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2) a Chyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6) yn cael eu cofnodi. Bydd adroddiad llawn o lefel cyrhaeddiad y disgyblion yn y pynciau craidd yn cael ei baratoi ar gyfer rhieni a'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddiwedd y flwyddyn addysgol. Dengys Atodiad 2 ganlyniadau'r asesiadau Blwyddyn 2 a 6, Haf 2016.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Byddwn yn dilyn y drefn o gofnodi enwau'r plant sydd angen sylw ychwanegol a pharatoi cynlluniau addysg unigol iddynt. Ceir cyswllt cyson a'r asiantaethau sy'n ymwneud â phlant.

Adolygwyd y polisi ADY .

1. Darparwyd Addysg Arbennig i'r disgyblion hynny oedd angen sylw ychwanegol gan ddilyn patrwm rhestr argymhellion yr Awdurdod Addysg.
2. Trefnwyd cofrestr addysg arbennig yr ysgol a sefydlwyd taflenni a threfn o sgrinio, asesu anghenion y disgyblion, llunio cynlluniau addysg unigol (IEP) a phriodol ar eu cyfer a monitro ac arolygu cynnydd yn unol a'r rhestr argymhellion.
3. Fe benodwyd Llywodraethwyr gyda chyfrifoldeb am ADY i oruchwylio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol, Ms Yvone Moseley a Rhian Roberts Jones sy'n gyfrifol ar ran yr ysgol.
4. Bu Cymhorthydd Dosbarth ADY yn gweithio â phlant unigol a grwpiau bychan am gyfnodau'n wythnosol.
5. Cafwyd sawl ymweliad gan Asiantaethau Allanol.

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Anghenion Addysg Arbennig - Cynorthwyo'r Plentyn

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, bydd plant yn cael anawsterau gyda'u gwaith e.e. dysgu darllen neu sillafu neu plant galluog iawn. Mae gan yr ysgol gynllun i gynorthwyo plant o'r fath. Mae'r cynllun wedi ei seilio ar Ddeddfau Addysg 1993 a 2002 ac yn cynnwys y camau canlynol.

1. Os yw'r athro/athrawes o'r farn bod gan blentyn broblemau, neu yn alluog iawn, yna bydd yn canfod ffyrdd o gynorthwyo'r plentyn. Gall y bydd yr athro/athrawes yn cael sgwrs gyda'r rhieni.
2. Os yw'r athro/athrawes o'r farn nad yw'r plentyn yn gwneud cynnydd, yna bydd yn trafod y problemau gyda'r Cydgysylltydd Anghenion Arbennig - y sawl sy'n sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n esmwyth yn yr ysgol. Yn yr ysgol hon, y cydgysylltwyr yw'r Pennaeth. Yn dilyn trafodaethau gyda'r rhiant, gall y bydd y plentyn yn cael ei osod ar restr arbennig (sef cofrestr Anghenion Addysgol Arbennig), sef Gweithredu gan yr Ysgol. Mae'r ysgol a'r rhieni yn llunio cynllun gwaith unigol arbennig ar gyfer y plentyn, a elwir yn CAU (Cynllun Addysg Unigol). Gallai hyn olygu rhoi sylw ychwanegol i'r plentyn. Mae hwn yn gam cadarnhaol wrth i'r ysgol a'r rhieni gydweithio i gynorthwyo'r plentyn. Edrychir ar faint o gynnydd a wnaed ar ôl cyfnod. Os bydd y problemau'n lleihau, bydd enw'r plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr.
3. Os deil problemau, gallai'r rhieni a'r ysgol benderfynu rhoi'r plentyn ar y cam nesaf: Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Nodir hyd ar y rhestr. Golyga hyn bod yr ysgol yn ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg yn gofyn Cyngor ynghylch sut i gynorthwyo'r plentyn. Fel arfer, mae Athro/Athrawes Ymgynghorol Anghenion Arbennig neu Seicolegydd Addysgol yn gweld y plentyn. Gallai hyn olygu rhoi sylw ychwanegol i'r plentyn. Yn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae'r ysgol a'r rhieni eto'n llunio Cynllun Gwaith Unigol arbennig ar gyfer y plentyn. Edrychir ar gynnydd ar ôl cyfnod. Os yw'r plentyn yn goresgyn y problemau, yna gellid gosod y plentyn yn ôl ar Gweithredu gan yr Ysgol neu hyd yn oed ei dynnu oddi ar y rhestr.
4. Efallai y bydd yr Awdurdod Addysg yn penderfynu darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y plentyn tra mae ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Gelwir y Cam hwn yn Cam 3* (3 serennog). Caiff y ddarpariaeth hon ei hadolygu'n gyson.
5. Os yw pawb sy'n ynghlwm yn teimlo bod angen cynnal asesiad manwl iawn o anawsterau'r plentyn, yna gellid penderfynu symud at Asesiad Statudol. Ar y cam hwn, mae gan yr Awdurdod Addysg ddull manwl iawn o gasglu gwybodaeth ynghylch y plentyn. Unwaith mae'r rhieni wedi cytuno ar y cam hwn, dechreuir gasglu gwybodaeth ac mae gan yr Awdurdod Addysg 6 mis i gasglu a pharatoi cynllun sy'n nodi ffyrdd o gynorthwyo'r plentyn (gwelir hwn yn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig).
6. Os yw'r rhieni yn cytuno i gynllun yr Awdurdod, yna rhoddir y plentyn ar Ddatganiad(y cam uchaf). Os yw'r rhieni yn anghytuno â'r cynllun, yna mae ffyrdd o drafod hyn gyda'r Awdurdod. Efallai y penderfynir hyd yn oed ddychwelyd y plentyn i Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Trwy'r holl gamau hyn, gwahoddir y rhieni i drafod materion gyda'r ysgol gan ddarparu copiau o gynlluniau addysg unigol are u cyfer. Y nod bob amser yw bod yr ysgol a'r rhieni yn cydweithio i gynorthwyo'r plentyn.

Gellir cael golwg ar bolisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol, yn yr ysgol o ofyn i'r Pennaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i'r Pennaeth os gwelwch yn dda.

Plant Mewn Gofal

Cefnogir a hyrwyddir cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yn unol a pholisiau'r ysgol. Y person dynodedig yw'r Pennaeth Bethan Hughes 01286 881273

Iechyd a Diogelwch

Cymerir pob gofal posib am ddiogelwch y plant tra byddant ar dir yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain, cysylltir â'r rhieni yn syth. Pe bai angen, byddwn yn cludo'r plentyn yn syth i Ysbyty Gwynedd neu cysylltir â'r gwasanaethau brys. Byddwn yn cofnodi damweiniau ac yn gyrru gwybodaeth adref. Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig - a hynny ar ôl derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig (ffurflen yn yr ysgol) gan riant yn unol â Pholisi'r ysgol. Os oes gan eich plentyn unrhyw anghenion meddygol, dylid cwblhau ffurflen iechyd unigol ar ei gyfer. Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os bydd angen newid i'r trefniadau arferol, dylid cysylltu gyda'r Pennaeth neu'r athrawon o flaen llaw.

Adolygir tefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yr ysgol yn gyson. Mae angen i bob ymwelydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Bydd disgwyl i ymwelwyr gofnodi yn y llyfr yn y dderbynfa ac arwyddo allan o'r adeilad a gwisgo bathodyn ymwelwyr.

Mae system larwm atal lladron yn yr ysgol a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol. Mae'r man ymgynnull tân wedi ei arwyddo yng ngwaelod yr iard.

Beth os aiff rhywbeth o'i le..? - Trefn Gwyno

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu arweiniad i Lywodraethwyr ar ddelio gyda chwynion. Pwysleisir fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaeth gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol. Mae'r Llywodraethwyr wedi sefydlu is-banel i ymdrin ag unrhyw gwyn ac mae aelod o'r Corff yn gweithredu fel llamerydd dros unrhyw riant sydd eisiau cyngor ar ffurfio cwyn pe bai angen hynny. Yn y lle cyntaf, dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth.

Polisi Gwrth-fwlio

Yma yn Ysgol Nebo mae'r staff, rhieni a'r plant yn gweithio gyda'i gilydd i greu awyrgylch hapus, gofalus lle gall plant dysgu'n braf mewn awyrgylch hapus. Ni dderbynnir bwlio o unrhyw fath. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i ddelio ag unrhyw acos, yn fuan ac yn effeithiol. Mae gennym bolisi Gwrth-fwlio ar gyfer ymateb i hyn.

Cyfle Cyfartal

Mae Ysgol Nebo yn gweithredu drwy ystyried cydraddoldeb yr holl gymuned yn yr ysgol a nodir hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb yr ysgol. Prif athroniaeth ac amcanion yr ysgol yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb yn sicrhau nad oes yr un disgybl nac aelod o staff yn cael eu wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabledd.

Cytundeb Cartref/Ysgol

Mae gennym 'Gytundeb Cartref/Ysgol sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir o ran ymrwymiad rhieni a disgyblion i gefnogi'r ysgol. Mae hefyd yn nodi ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gorau i rieni a disgyblion fel bod pob disgybl yn derbyn y cyfleoedd gorau posibl i ddysgu a datblygu. (Atodiad 1).

Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Mae drws ar agor i rieni ar unrhyw adeg a bydd croeso cynnes i chwi yma. Os oes unrhyw beth yn eich poeni ynglyn a datblygiad eich plentyn, cysylltwch a'r ysgol er mwyn i ni gael trafodaeth.

Polisi Ynglyn â defnyddio grym rhesymol

Mae'r ysgol, athrawon a person awdurdodedig eraill yn gwneud defnydd priodol o 'Rym Rhesymol' pan yn defnyddio strategaethau diogelwch plant ac eiddo. Mae Corff Llywodraethol Ysgol Nebo yn derbyn ac yn gweithredu Canllawiau Awdurdod Addysg Gwynedd ynglyn â defnyddio Grym Rhesymol.

Gweinyddiaeth/Bugeiliol

Polisiau/Trefn Diogelu Plant

Mae'r Llywodraethwyr yn adolygu polisiau yr Ysgol fel bo angen mewn cyfarfodydd tymhorol. Anodd iawn yw crynhoi cynnwys polisiau'r ysgol ar gyfer pwrpas y llawlyfr hwn. Rydym wedi cynnwys manylion pwysig yma ond cofiwch y gellir cael mynediad llawn at unrhyw bolisi Ysgol drwy gysylltu a'r Pennaeth.

Amddiffyn Plant

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglyn ag esgeileustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater with Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod y materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth yw'r Cyd-Gysylltydd Diogelu Plant.

Canllawiau Amddiffyn Plant yr Ysgol

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan bob athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgelustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.

Pryderau am blentyn:

Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn Ysgol Nebo yw:

Bethan Hughes a Rhian Roberts Jones fel dirwpry.

Person Cyfrifol Amddiffyn Plant Llywodraethwyr : Yvonne Moseley.

Drwy'r Tim Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol:

01758704455 (9.00 - 17.00 Llun - Gwener)

Ffôn tu allan i oriau: 01248353551 (unrhyw amser arall)/E-bost

cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk.

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt Llywodraethwr / yr awdurdod os oes holiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig o'r Pennaeth.

Ysgol Sy'n Hybu Iechyd

Mae Ysgol Nebo yn ysgol sy'n hybu iechyd ac o ganlyniad mae gweithgareddau a bywyd yr ysgol yn adlewyrchu hun. Ni chaniateir fferins na chreision yn ystod amser egwyl, yn hytrach cefnogwn ffrwythau yn unig. Bydd disgyblion Bl.5 a 6 ac aelodau'r cyngor yn rhedeg caffi smwddis/cebabs ffrwythau bob dydd Gwener fel rhan o'u metergarwch.

Mae gan yr ysgol bolisi yn erbyn "Bwlio". Mae'r ysgol yn cynnal cynllun "bydi buarth", sy'n golygu fod y disgyblion hyn yn gofalu am y plant sydd angen cyfaill/gemau ar y buarth.

Defnyddiwn "Amser Cylch" i hyrwyddo ymddygiad da a datblygu'r plant yn foisol a chymdeithasol.

Cyngor Ysgol - Pwyllgor o ddisgyblion sy'n cynrychioli aelodau o'u dosbarthiadau ar y cyngor. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion rhoi eu syniadau ar nifer o faterion.

Amser Egwyl - Gwlyb a Sych Mae strwythr arbennig i amser chwarae gyda amrywiaeth o weithgareddau i hybu cyd chwarae a datblygiad cymdeithasol.

Gwaith Cartref

Ni roddir gwaith cartref yn gyson yn y Cyfnod Sylfaen ond bydd llyfrau darllendyddiol yn mynd adref. Bydd plant yr Adran Iau yn mynd a llyfrau adref a gwaith cartref wythnosol a fydd yn cael ei roi allan a bnawn Gwener a'i ddychwelyd i'r ysgol bob dydd Mercher. Pwrpas hyn yw atgyfnerthu'r gwaith a wneir yn yr ysgol, mae cofnod ar y gwaith cartref I'r rhieni arwyddo ac iGofynnir i rieni annog eu plant i ddarllen yn gyson ac i wneud eu gwaith cartref a'i gyflwyno yn brydlon

Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol grysg chwys, crysg polo, hwdis, cardigan a chotiau gyda bathodyn yr ysgol arnynt. Disgwylir i'r plant fod wedi eu gwisgo yn lân a thrwsiadus, a bod eu dillad yn rhai addas i'w gwisgo yn yr ysgol. Gellir archebu'n unig drwy'r ysgol yn dymhorol.



Codi Tal Am Weithgareddau Yn Yr Ysgol.

Polisi am godi tâl am weithgareddau ysgol

Yn unol â Deddf Addysg 1996, ni chodir tâl am y gweithgareddau canlynol:

1. Mynediad i'r ysgol.
2. Yr addysg a dderbynnir yn ystod oriau ysgol.
3. Defnyddiau /cyfarpar ar gyfer gwersi yn ysyod oriau ysgol.

Mae hawl gennym fodd bynnag, i ofyn am gyfraniadau gwirfoddol ar gyfer ymweliadau neu weithgareddau addysgol yn ystod oriau ysgol ystyrir bod y plant yn elwa ohonynt yn addysgol.

- Gweithgareddau tu allan i oriau ysgol/neu preswyl

Hyfforddiant Offerynnol

Mae cyfle i'r plant gael hyfforddiant offerynnol. Daw athrawon William Mathias i'r ysgol unwaith yr wythnos i gynnal gwersi. Gall y plant fenthyca offerynnau a disgwylir iddynt ymarfer gartref.

Gofynnir i'r rhieni sy'n dymuno i'w plant gael yr hyfforddiant hwn i gyfrannu £186 y flwyddyn tuag at y gost, yr arian i'w dalu ar ddechrau tymor yr Hydref er mwyn ymrwymo i'r gwersi am flwyddyn ysgol. Credwn fod hyn yn fuddsoddiad pwysig yn natblygiad cerddorol y plant.



Cymdeithas Rhieni Ac Athrawon

Rhan anodod o unrhyw ysgol yw'r mewnbwn a ddaw gan y rhieni. Yn yr ysgol yr ydym yn ffodus o gael cymdeithas rhieni llewyrchus iawn. Cynhelir cyfarfodydd C.Rh yn ystod y flwyddyn a ceir amrywiaeth o weithgareddau: Mae croeso cynnes iawn i aelodau newydd fynychu a chynorthwyo'r gwaith da sy'n cael ei wneud i godi arian at yr ysgol.

Cyswllt â'r Gymuned.

Mewn ysgol fechan fel ysgol Nebo, mae cysylltiad yr ysgol â'r gymuned yn bwysig iawn. Ceisiwn ein gorau i gyflwyno i'r plant gyfoeth eu hamgylchfyd, yn gyfoeth dynol a chyfoeth naturiol. Mae gennym Gynllun Ymweliadau Addysgol wedi ei lunio er mwyn sicrhau fod y plant yn cael cyfle rheoliadd i ymweld ac i wneud y mwyaf o gyfoeth naturiol a masnachol yr ardal.



Cyswllt a diwydiant/Busnes a Chyflogwyr

Mae'r Cyngor Ysgol yn rhedeg clwb smwddis a chebab ffrwythau bob wythnos. Mae hyn yn datblygu mentergarwch ar lefel cychwynnol i'r plant a chyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, rhifedd a TGCH. Buddsoddwyd mewn cit pel droed/chwaraeon, offer chwaraeon a sachau eistedd moethus i'r gornel ddarllen gyda arian blwyddyn y clwb.



Yr Urdd.



Mae cyfarfodydd yr Urdd a gynhelir yn yr ysgol bob yn ail Nos Lun am ddau dymor yn rhan anotod o ddatblygiad cymdeithasol y plant a hefyd yn creu cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned a diwydiannau lleol. Yn ogystal â chyfarfodydd yr Urdd byddwn hefyd yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, cystadlaethau fydd yn apelio at ystod eang o blant.



Yn fuan yn y flwyddyn newydd byddwn yn dechrau ar gystadlaethau eisteddfod yr Urdd gyda'r gwaith celf dylunio a thechnoleg yn cael ei wneud mewn cyfarfodydd ar ôl ysgol. Eto i gyd byddwn yn cael llwyddiant mawr gyda'r cystadlaethau yma gyda nifer o dystysgrifau yn dod yn ôl i'r ysgol!

Yr adeg yma o'r flwyddyn hefyd byddwn yn dechrau ymarfer ar gyfer cystadlaethau llwyfan yr eisteddfod. Tua mis Mehefin caiff y mwyaf ffit ohonom gyfle i gynrychioli adran yr Urdd yr ysgol mewn cystadlaethau Mabolgampau. Bob blwyddyn yr ydym wedi cael cynrychiolaeth gref yn cael mynd i fabolgampau'r Sir.

Yn Ysgol Nebo yr ydym yn credu fod adran yr Urdd yn yr ysgol yma i amrywiaeth o ddibenion:

- * cyfle i'r plant ddod i wybod am y byd o'u cwmpas.
- * cyfle i'r plant ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol.
- * rhoi cyfle i'r plant a'r athrawon gymdeithasu gyda'u gilydd tu allan i ffiniau cwricwlaidd.
- * rhoi ysgol Nebo ar y map!

Presenoldeb

Targed presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2017-18 = 95.5%

Canran presenoldeb am y flwyddyn 2016-17 ar gyfer ysgol gyfan:

	Canran Presenoldeb	Canran Absenoldeb gydag Awdurdod
Blynyddoedd 1 a 2		
Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6		

Llywodraethwyr yr Ysgol.

Mr O.P Huws - Cadeirydd

Mr Edgar Evans Is Gadeirydd

Mrs Rhian Roberts Jones

Ms Bethan Hughes.

* Ms Yvonne Moseley

*Mrs Andrea Jones

*Mr Gary Moseley

Mr Dafydd Thomas

(Mae gan y rhieni gynrychiolwyr ar y corff llywodraethwyr ac fe'i dynodir â *)

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Gellir cael copi o'r camau i'w cymryd i drefnu hyn yn yr ysgol.

Disgyblaeth

Mae polisi Awdurdod Addysg Gwynedd ar ddisgyblaeth mewn ysgolion a pholisi disgyblaeth yr ysgol yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant yn yr ysgol hon drwy hyrwyddo egwyddonion:

- Meithrin y disgyblion i fod yn hunan ddisgybledig o fewn yr ysgol ac yn y gymdeithas, gan gyfrannu at gymdeithas wâr.
- Gosod sylfaen i'r plant fel y dônt yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o fewn cymdeithas.
- Magu parch tuag at eu cyd-ddisgyblion, athrawon, holl bersonel yr ysgol ac oedolion yn y gymdeithas.

- Magu parch tuag at eiddo personol, eiddo eraill megis dillad, dodrefn a chyfarpar yr ysgol.
- Annog y plant i dderbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad a bod yn hunan feirniadol.
- Meithrin ymwybyddiaeth sy'n sicrhau diogelwch tu mewn a thu allan i'r ysgol

Clwb Brecwast

Mae cyfle i bob plentyn yn yr ysgol fod yn rhan o'n Clwb Brecwast. Golyga hyn y gall eich plentyn ddod i'r ysgol erbyn 8:10 i gael sudd ffrwythau, grawnfwyd a thost i frecwast.

Mae'r Clwb Brecwast ar agor bob diwrnod ysgol a does dim angen talu ceiniog i fod yn rhan ohono. Os dymunwch i'ch plentyn fod yn rhan o'r clwb hwn, cysylltwch â'r ysgol am fwy o fanylion.

DATGANIAD AR YSMYGU

Mae'r ysgol yn adeilad di-fwg. Ni chaniateir i neb ysmegu yn yr adeilad nac ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg na thra'n gofalu am blant y tu allan i'r ysgol.

CWN AR DIR YR YSGOL

Ni chaniateir i neb ddod â chwn (ac eithrio cwn tywys) ar dir yr ysgol wrth nôl a

danfon plant nac i unrhyw weithgareddau a drefnir gan yr ysgol.

Trefn Blwyddyn Yn Ysgol Nebo.

Medi: Plant ac athrawon yn dechrau'r ysgol ar ôl gwyliau'r Haf.
Cyfarfodydd yr Urdd/Clwb Ar ôl Ysgol yn cychwyn.
Bore Coffi Macmillan.



Hydref: Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol.

Noson agored gyntaf y flwyddyn yn yr ysgol.



Tachwedd: Ffair Nadolig

Rhagfyr: Cyngerdd Nadolig gan y plant i'r rhieni a'r cyhoedd.
Parti Nadolig
Cinio Nadolig wedi ei baratoi yn y gegin.
Y plant yn cael cyfle i weld pantomeim neu



ffilm.

Ionawr: Ymarfer at Eisteddfod yr Urdd.

Chwefror: Hanner tymor.

Mawrth: Eisteddfod yr Urdd Cylch Dyffryn Nantlle.
Arddangosfa Celf a Chreffft Cylch Dyffryn Nantlle.



Ebrill: Noson agored i'r rhieni.

Mai: Profion Cenedlaethol i flynyddoedd 2-6
Dechrau gwerthu raffl ar gyfer codi arian i'r
Tynnu lluniau gan ffotograffydd proffesiynol.



ysgol.

Mehafin: Mabolgampau'r ysgol/tynnu raffl fawr.
Mabolgampau'r Urdd.
Trip ysgol blynyddol.
Plant sy'n dechrau yn llawn amser ar ôl yr Haf yn cael dod i'r ysgol ar
ymweliad diwrnod cyfan a phlant bach meithrin newydd yn cael dod am
hanner diwrnod.
Ymweliadau gan blant blwyddyn 6 â'r ysgol Uwchradd.

Gorffennaf: Noson agored olaf y flwyddyn i drafod adroddiadau diwedd
blwyddyn.
Picnic ffarwelio a blwyddyn 6.



Awst: GWYLIAU'R HAF!!

